


laith fyw: iaith byw

Strategaeth y Gymraeg 2012–17



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad blynyddol 2015–16



laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 Adroddiad blynyddol 2015–16

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartion eraill â diddordeb.

Trosolwg

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 *lansiwyd iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17* ym mis Ebrill 2012. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Uned y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1307

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

www.llyw.cymru/ygymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh

laith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012)

www.llyw.cymru/topics/welshlanguage/policy/living/?skip=1&lang=cy

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)

www.llyw.cymru/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf

laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen: Datganiad polisi (2014)

www.llyw.cymru/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?skip=1&lang=cy

laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen Cynllun Gweithredu (2015–16)

<http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/welsh-language-strategy-action-plan-2015-2016/?lang=cy>

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf

Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013–14: Arolwg Defnydd Iaith (2015)

www.llyw.cymru/docs/statistics/2015/150129-welsh-language-use-survey-cy.pdf

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
1. Y Gymraeg a'r economi	4
2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg	7
3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	12
4. Newid ymddygiad ieithyddol	16
Atodiad A: Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg	19
Atodiad B: Dangosyddion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	30

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gen i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Rhoddodd y datganiad polisi *laith fyw; iaith byw – Bwrw Mlaen*, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014, ffocws penodol ar ein blaenoriaethau fel Llywodraeth wrth weithredu'r Strategaeth dros y tair mlynedd hyd ddiwedd cyfnod y strategaeth ym mis Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn crynhoi'r hyn a gyflawnwyd yn ôl y blaenoriaethau hynny, a thrwy hynny gyfrannu tuag at amcanion chwe maes strategol *laith fyw: iaith byw*.

Eleni, mae'r adroddiad hefyd yn adrodd ar y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae hynny'n adlewyrchu'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng y ddwy Strategaeth, ac yn arwydd o fy mwriad dros y flwyddyn sydd i ddod i ddatblygu gweledigaeth newydd ar gyfer y Gymraeg sy'n pontio addysg a defnydd iaith, gan weithio tuag at yr uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cefais fy mhenodi yn Weiniog gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg ym mis Mai. Mae'r adroddiad hwn, sy'n adrodd ar y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, yn rhoi cyfle i mi gnoi cil ar y seiliau y gallwn adeiladu arnynt wrth i ni ddatblygu gweledigaeth a strategaeth hirdymor newydd.

Bu nifer o ddatblygiadau pwysig yn ystod y flwyddyn adrodd. Lluniwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar gyfer rhagor o sefydliadau, gan ychwanegu at y Rheoliadau cyntaf ar gyfer Awdurdodau Lleol, y Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru a wnaed ym mis Mawrth 2015. Derbyniodd sefydliadau'r Rheoliadau cyntaf hysbysiadau cydymffurfio yn ystod y flwyddyn, ac erbyn diwedd mis Mawrth daeth y Safonau yn weithredol.

Datblygiad pwysig arall yn ystod y flwyddyn oedd cyhoeddi Fframwaith strategol olynol *Mwy na Geiriau* ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn ieched, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y fframwaith yw gwreiddio'r cysyniad o 'gynnig rhagweithiol' i wasanaethau Cymraeg yn y maes.

Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd datganiad ar y camau nesaf gyda'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn sgil y ffaith bod cyfnod cychwynnol pum mlynedd y Strategaeth wedi dod i ben. Y ffocws allweddol yn ystod y pum mlynedd cyntaf oedd cryfhau trefniadau cynllunio ar draws yr holl gyfnodau, gan sicrhau cefnogaeth i ddarparwyr ar ffurf hyfforddiant, comisiynu adnoddau addysgu a dysgu, a grantiau i gefnogi ymyriadau penodol, er enghraifft rhagor o gyfleoedd trochi hwyr a chyfraddau dilyniant ieithyddol gwell. Wrth symud ymlaen, yr her yw sicrhau bod yr holl brosesau cynllunio yn cael eu gwreiddio, eu rhoi ar waith a'u gwireddu. Byddwn hefyd am sicrhau bod pobl ifanc yn hyderus i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ym mhob sefyllfa.

Yn ogystal â'r datblygiadau strwythurol hyn, roedd parhad yn y gwaith pwysig o hybu defnydd o'r Gymraeg. Un enghraifft trawiadol o hynny yn ystod y flwyddyn oedd

Dydd Miwsig Cymru, sef ymgyrch a lwyddodd i godi ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Gymraeg a'i chyflwyno i gynulleidfaoedd newydd.
Ein her yn awr yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud er lles y Gymraeg, a symud tuag at weledigaeth newydd, hirdymor, uchelgeisiol a phositif.

1. Y Gymraeg a'r economi

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i greu'r amgylchedd gorau posibl er mwyn meithrin twf y Gymraeg a datblygiad economaidd wrth i'r naill hybu'r llall. Cydnabyddir yn Bwrw Mlaen bod twf economaidd, swyddi, creu cyfoeth a lles y Gymraeg yn mynd law yn llaw â'i gilydd, ac mae ysgogiad i helpu busnesau i fanteisio ar y gydberthynas hon. Dymuna Llywodraeth Cymru i fwy o fusnesau weithredu'n ddwyieithog ac adnabod gwerth y Gymraeg. Yn ogystal, parheir i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr economi ddirigidol.

Y Gymraeg a'r economi yw un o brif themâu Bwrw Mlaen yn sgil ymrwymiad ym Maes Strategol 3 (Y Gymuned) o Strategaeth y Gymraeg, iaith fyw: iaith byw, i roi sylw i'r cysylltiadau rhwng y Gymraeg a'r economi. Adroddir isod ar weithgaredd yn ystod y flwyddyn sydd hefyd yn cwmpasu Maes Strategol 4 (Y Gweithle), Maes Strategol 5 (Gwasanaethau Cymraeg) a Maes Strategol 6 (Seilwaith) a nodir yn *iaith fyw: iaith byw*.

Gweithredu yn ôl ardal – cefnogi economi ardaloedd Cymraeg

Mae datblygiad Wylfa Newydd ar Ynys Môn yn brosiect seilwaith anferth, sy'n fwy na adweithyddion niwclear yn unig. Mae gan yr isadeiledd ychwanegol, megis gwelliannau priffyrdd a llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu, yn ogystal â'r busnesau cadwyn gyflenwi, y gallu i drawsnewid economi Ynys Môn. Mi fydd y datblygiad yn creu hyd at 1000 o swyddi parhaol a gweithlu adeiladu a allai gyrraedd 10,000 yn ystod cyfnodau brig. Er mwyn sicrhau fod mesurau lliniaru clir mewn lle i leihau yr effaith ar yr iaith Gymraeg, mae Is-adran Y Gymraeg gyda chymorth traws adrannol o fewn y Llywodraeth, wedi bod yn cydweithio gyda'r Awdurdod Lleol, y datblygwr a nifer o bartneriaid i adnabod y risgiau a'r cyfleoedd i'r Gymraeg. Mae swyddogion hefyd yn arsylwyr ar ddau grŵp; Grŵp Llywio Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n cael ei arwain gan Horizon Ynni Niwclear, a Grŵp Swyddi a Sgiliau Ynys Ynni dan arweiniad tîm Ynys Ynni. Mae'r Is-adran hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Rhaglen Niwclear mewnol.

Cynhaliwyd prosiect peilot er mwyn rhoi prawf ar ddull o wella sut caiff gwasanaethau busnes eu darparu yn Nyffryn Teifi, gan gynnwys Cymorthfeydd Busnes Cymraeg a Chronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg. Amlygodd y gwerthusiad fod angen i'r Gymraeg gael ei phlethu a'i phrif ffrydio i raglenni o ddigwyddiadau a hyfforddiant i fusnesau, a bod hefyd angen datblygu rhaglen o hyfforddiant i staff Busnes Cymru ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Bydd canlyniadau'r cynllun peilot yn helpu Busnes Cymru i gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y dyfodol.

Cymorth i fusnesau

Mae nifer o sefydliadau yn cynnig cymorth i fusnesau o ran sut i gynnig gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid. Er mwyn sicrhau fod mwy o eglurder o ran y cymorth sydd ar gael mae Is-adran y Gymraeg, Busnes Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith Cymru wedi cychwyn gweithgor er mwyn datblygu llwybr syml i fusnesau i dderbyn cymorth.

Cynhaliwyd sawl ymgyrch farchnata hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau sydd ar gael gan Busnes Cymru yn y Gymraeg. Targedwyd nifer o weithgareddau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau a oedd yn cynnwys cynnal cystadleuaeth i gynyddu nifer tanysgrifwyr y cylchlythyr busnes.

Mae'r Parth Marchnata ar wefan Busnes Cymru yn defnyddio meddalwedd chwyldroadol Linguaskin sydd yn galluogi deunydd gwefannau uniaith i gael eu chwarae'n ddwyieithog (<http://businesswales.gov.wales/marketing?lang=cy>) ac mae'r Digwyddiadur Busnes dwyieithog ar y wefan <https://wales.business-events.org.uk/cy/> ar gael i holl ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth.

Crëwyd adran ar fanteision defnyddio'r Gymraeg i fusnesau ar wefan Busnes Cymru, ac fe wneir defnydd helaeth o ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg Busnes Cymru er mwyn ceisio cynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael. Mae ffrwd Gymraeg Twitter a Facebook Busnes Cymru yn gweithredu'n annibynnol i'r ffrwd Saesneg, er mwyn galluogi canolbwyntio ar bynciau ac eitemau sydd o ddiddordeb penodol i'r gynulleidfa honno. Gwna Busnes Cymru ddefnydd o #yagym (@yrawrgymraeg), ac fe gynhyrchwyd fideo poblogaidd i ddangos sut all gwirfoddolwyr helpu i gyfieithu Twitter i'r Gymraeg. Targedwyd perchnogion a rheolwyr busnes Cymraeg eu hiaith i fod yn destun fideos byr fel fod modd rhannu cyngor busnes ar sianel YouTube Busnes Cymru, ac i sôn am fanteision defnyddio'r Gymraeg mewn busnes.

Sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

Roedd yr angen i gynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle ledled Cymru yn thema gyson mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd ac yn y Gynhadledd Fawr. Yr her yw bod y niferoedd sy'n gallu siarad yr iaith yn bositif, ond nad yw'r niferoedd hynny yn ei defnyddio yn enwedig yn y gweithle. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd sylw cynyddol i'r iaith Gymraeg yng nghyswllt sgiliau, boed hynny'n ddarpariaeth neu hyfforddiant sgiliau o fewn rhaglenni'r Llywodraeth. Mae'r cynnydd yn y dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn parhau ac mae'r darparwyr hyfforddiant yn cael mwy o lwyddiant wrth gyflwyno elfennau o'r Gymraeg i'r prif fframweithiau hyfforddiant.

Mae ystyriaeth o sut mae'r iaith yn cael ei hyrwyddo a'i chynnwys o fewn rhaglenni wedi'i gynnwys yn y broses o werthuso rhaglenni, gan gynnwys yr holl rhaglenni sgiliau a ariannwyd drwy Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Mae'r gwerthusiadau hyn yn sail i'r gwaith o ddatblygu ac addasu rhaglenni newydd, gyda phwyslais gynyddol ar

gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Y Gymraeg a'r economi ddigidol

Yn sgil y cynnydd yn y cyfryngau digidol, mae'n bwysig ein bod yn harneisio'r technolegau hyn er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fodern. Ymrwymwyd yn natganiad Bwrw Mlaen i 'gydweithio â sefydliadau masnachol a chyrrff academaidd i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau iaith ddigidol newydd, fel geiriaduron, adnoddau dadansoddi testun, technolegau lleferydd ac adnoddau cyfieithu sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Mae'r maes adnoddau dadansoddi testun yn allweddol er mwyn adeiladu'r seiliau ar gyfer technolegau lleferydd ac adnoddau cyfieithu, a hyd yn oed geiriaduron newydd.

Rydym wedi dyrannu grantiau i Brifysgol De Cymru er mwyn eu galluogi i ddatblygu ystod o adnoddau iaith naturiol, megis tagwr a holltwr geiriau. Ariannwyd prosiectau eraill o'r gronfa a oedd yn cynnwys gwefan rheoli digwyddiadau: Tocyn.cymru, ap ffrydio cerddoriaeth o Gymru: ApTon gan gwmni Sain a Thema.cymru sydd yn hwyluso'r broses o greu gwefannau dwyieithog i fusnesau a mudiadau.

Astudiaeth achos – tocyn.cymru

Yn dilyn cais llwyddiannus am grant Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg, derbyniodd Mollin Cyf gyllid tuag at sefydlu a lansio <http://tocyn.cymru> i drefnu digwyddiadau a dosbarthu tocynnau. Ar y wefan hon, gall drefnwyr greu, cyhoeddi a lledaenu'r gair am eu digwyddiadau, gan fanteisio ar rwydweithiau cymdeithasol. Os am werthu tocynnau gallent dderbyn taliadau cerdyn neu PayPal ar lein. Bydd y rhai sydd am fynychu digwyddiad yn gallu chwilio am ddigwyddiadau ac archebu tocyn ar wefan tocyn.cymru. Mae'r holl wasanaeth ar gael yn ddwyieithog.

Bu i Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor dderbyn grant er mwyn datblygu cynorthwydd personol artiffisial o'r enw Macsen, sydd yn gallu ymateb ar lafar i gyfres o gwestiynau Cymraeg syml gan siaradwyr Cymraeg. O ran y maes geiriaduron, fe ariannwyd ApGeiriadur Prifysgol Cymru ac fe fu adnodd TermCymru'r Llywodraeth o gymorth i Brifysgol De Cymru wrth iddynt ddatblygu adnoddau iaith Cymraeg newydd.

Parhawyd i sicrhau bod terminoleg gyfredol safonol ar gael i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r grant tair blynedd i Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor i gynnal a datblygu'r Termiadur Addysg yn ddigidol. Erbyn diwedd ail flwyddyn y grant roedd tua 65,000 o dermau addysg ar gael ar y wefan ac o fewn ApGeiriaduron.

Mae darparu adnoddau digidol cyfrwng Cymraeg i gefnogi a datblygu sgiliau ieithyddol dysgwyr 3-19 oed yn hanfodol. I'r perwyl hwn cyhoeddwyd 15 o apiau newydd yn ystod y flwyddyn i'w defnyddio o fewn cwricwlwm yr ysgol neu'n annibynnol yn y cartref. Drwy gemau iaith a sillafu, croeseiriau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar lyfrau a chymeriadau poblogaidd disgwylir y bydd dysgwyr yn magu hyder ac yn mwynhau defnyddio'r iaith.

2. Gwell cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg

Sicrhau lle mwy amlwg i'r Gymraeg o fewn agenda'r llywodraeth ac agendau awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yw'r prif her â nodir ar gyfer yr adran hon yn Bwrw Mlaen. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni'r newid sylweddol hwn. Bydd pontio'r bwch rhwng addysg a'r gweithlu drwy gynnwys y Gymraeg yn ein rhaglenni sgiliau hefyd yn bwysig iawn.

Heb os un o'r heriau allweddol yw troi ewyllys da tuag at yr iaith yn weithredu pendant, gan sicrhau fod buddiannau'r Gymraeg yn rhan annatod o waith y sector gyhoeddus. Cwmpasir yn yr adran hon adroddiad ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg, sy'n cyfrannu tuag at feysydd strategol y gymuned (3), y gweithle (4), gwasanaethau (5) a'r seilwaith (6) a nodir yn Strategaeth y Gymraeg *laith fyw: iaith byw*, yn ogystal a chyfrannu tuag at wireddu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth.

Buddsoddiad mewn canolfannau a gofodau dysgu

Ymrwymwyd yn Bwrw Mlaen i sefydlu cronfa fuddsoddi gwerth £1.25 miliwn. Nod y gronfa yw cefnogi datblygiad canolfannau a/neu ofodau dysgu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi yn y Gymraeg a hynny drwy gystadleuaeth a fydd yn creu syniadau ac egni newydd. Ers cyhoeddi Bwrw Mlaen mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu gwerth £2.5 miliwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf (2014-16). Dyrannwyd grantiau i 6 chais llwyddiannus ar gyfer cronfa 2015-16 a chafodd cynnydd y prosiectau hynny ei fonitro yn ogystal â'r prosiectau a dderbyniodd grant yn 2014-15. Hefyd, sefydlwyd rhwydwaith ymhlith y Canolfannau Iaith sydd wedi'u hariannu, a byddwn yn parhau i gynnal y rhain er mwyn rhannu gwybodaeth, adnoddau a syniadau.

Astudiaeth achos – Yr Atom

Yn dilyn cais llwyddiannus i'r gronfa gyllid cyfalaf Canolfannau Iaith a Gofodau Dysgu, derbyniodd Prifysgol Drindod Dewi Sant grant o £355,000 tuag at sefydlu Canolfan Iaith yng nghalon tref Caerfyrddin. Agorwyd *Yr Atom* yn swyddogol gan y Prif Weinidog Hydref 2015. Yn ogystal a'r cafffi sydd bellach wedi ennill ei le ar restr *Wales Online* o'r llefydd gorau i fwyta yn Sir Gâr, mae'r Ganolfan yn gartref i Gylch Meithrin Myrddin, stiwdio radio Cymru FM a swyddfa Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr.

Ers agor, mae *Yr Atom* wedi gwreiddio ei hun ym mhob rhan o fywyd y dref gan sicrhau fod cymdeithasau a sefydliadau sy'n ymwneud a hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol yn cydweithio a chydgyllunio er budd y Gymraeg. Yn arbennig felly, mae'r Ganolfan yn rhoi'r cyfle i ddarparwyr rhaglenni addysgol Cymraeg yn yr ardal i gydgyllunio rhaglenni sydd wedi eu teilwra'n benodol at anghenion pobl tref

Caerfyrddin a'r ardaloedd cyfagos megis;

- Trosglwyddo'r iaith a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y teulu
- Darparu gwasanaethau addysg
- Creu bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol
- Dwyieithogi busnesau tref Caerfyrddin cyn dyfodiad Canolfan S4C, Yr Egin yn 2018

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cafodd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynnddi, nawr ac yn y dyfodol. I wneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant. Mae un o'r nodau hynny'n cynnwys 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaed gwaith paratoadol cyn i ddarpariaethau'r Ddeddf gychwyn ar 1 Ebrill 2016. Roedd hynny'n cynnwys cyhoeddi Dangosyddion Cenedlaethol a fydd yn ein helpu i wybod a ydym yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae dau o'r Dangosyddion hynny'n ymwneud â'r Gymraeg, sef:

- Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.
- Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Safonau'r Gymraeg

Nodir yn glir yn Bwrw Mlaen bwysigrwydd a photensial Safonau'r Gymraeg wrth ysgogi newid. Ymrwymwyd i barhau â'r broses o lunio rheoliadau ar gyfer safonau'r Gymraeg. Yn dilyn cyflwyno'r Rheoliadau i wneud y set cyntaf o Safonau yn Mawrth 2015, aethpwyd ati yn ystod 2015-16 i lunio Rheoliadau ar gyfer rhai o'r sefydliadau a fu'n rhan o ail ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol megis Gardd Fotaneg Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan y Mileniwm, S4C, yr Amgueddfa Genedlaethol, Cyngor Chwaraeon Cymru, tribiwnlysoedd Cymru, heddluoedd, gwasanaethau tân ac achub yn ogystal â byrddau ac ymddiriedolaethau ieched. Oherwydd nifer uchel y sefydliadau a'u natur amrywiol, fe'u rhannwyd i glystyrau er mwyn paratoi safonau addas a pherthnasol i bob clwstwr.

Cymeradwywyd tair set o Reoliadau yn ystod Gwanwyn 2016, sy'n golygu bod y Comisiynydd bellach yn gallu gosod safonau ar 107 o sefydliadau. Penderfynwyd y dylid ymgynghori ar rheoliadau drafft ar gyfer sefydliadau o'r sector ieched hefyd. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n cychwyn yn ystod haf 2016.

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r safonau a wnaed drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol baratoi strategaethau ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd. Cynhaliwyd trafodaethau gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn amryw o fforymau yn ystod y flwyddyn, a bydd y gwaith o gefnogi'r awdurdodau lleol yn y maes hwn yn parhau.

Yn sgil y safonau ac er mwyn hwyluso'r gwaith o briff ffrydio'r iaith ar draws pob adran o'r Llywodraeth, gwnaed gwaith i gryfhau strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru. Mae'r Safonau'n gyfle pwysig i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau canlyniadau polisi gwell i bobl Cymru. Croesawyd y rhestr derfynol o Safonau a osodwyd ar Weinidogion Cymru ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'w gweithredu. Parhau wnaeth y gwaith o baratoi ar gyfer eu gweithredu gan gynnwys datblygu strategaethau Sgiliau Dwyieithog ym mhob Grŵp, gweithredu'r Fframwaith Asesu Effaith Polisiâu, a gweithredu Cynllun Cyfathrebu Mewnol ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau.

Mae ymgyrch gyfathrebu fewnol wedi bod ar waith i baratoi staff ar gyfer gweithredu'r Safonau, gan gynnwys negeseuon allweddol aml a chyson yn areithiau, bwletinâu newyddion a briffiau'r Ysgrifennydd Parhaol. Cyfathrebir gyda staff drwy ystod o sianelau gwahanol gan gynnwys bwletin newyddion dyddiol, briffiau wythnosol dwyieithog a negeseuon fideo. Mae'r negeseuon arweinyddiaeth hyn ynghylch y Safonau wedi'u cefnogi mewn briffiau a digwyddiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil ac mewn posteri o amgylch yr ystâd. Lansiodd tudalennau mewnol pwrpasol ar gyfer y Gymraeg a chynhaliwyd llu o weithdai a sesiynau hawl i holi ar y Safonau yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau i'w gwaith.

Mae fframwaith asesu effaith polisiâu Llywodraeth Cymru bellach ar waith ar draws y sefydliad, ac felly mae'r asesiad yn un o'r asesiadau effaith gofynnol y mae'n rhaid i staff ymgymryd â nhw wrth ddatblygu polisiâu. Cynhaliwyd cyrsiau hyfforddi i staff ar ddefnyddio'r fframwaith, a gwnaed staff yn ymwybodol o'r datblygiadau drwy sianelau cyfathrebu mewnol gan gynnwys drwy brif ffrydio'r gofynion yn ystod cyrsiau hyfforddi ar ddatblygu polisi. Ein bwriad yw sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth ddatblygu polisiâu newydd ac wrth adolygu polisiâu, er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith a sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cynllunio defnydd tir

Gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu'r amodau cymdeithasol ac economaidd i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg at y dyfodol. Yn unol â'r ymrwymiad yn Bwrw Mlaen, mae'r gwaith o bwysu a mesur pob cam ymarferol i atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn y system gynllunio yn parhau. Yn ystod y flwyddyn

ddiwethaf cafodd Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 ei gymeradwyo, yn cynnwys dwy adran nodedig yn ymwneud â chynllunio a'r Gymraeg, gyda'r adrannau hynny'n dod i rym ar 4 Ionawr 2016.

Mae Adran 11 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol i ystyried effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg, fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun. Fel rhan o'r ddyletswydd hon rhaid i bob awdurdod cynllunio fynd ati hefyd i gasglu a chadw tystiolaeth ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun. Mae'r adran hon yn atgyfnerthu polisi cynllunio cyfredol Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2013). Bydd y dyletswydd hon hefyd yn berthnasol pan fydd Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael eu paratoi.

Mae adran 31 y Ddeddf yn cadarnhau ac egluro bod modd ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth benderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio os yw'n berthnasol i'r cais. Pwrpas y ddarpariaeth hon yw rhoi hyder i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau bod effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn gallu bod yn 'ystyriaeth berthnasol' (*material consideration*).

Rydym wedi diweddarau'r polisi cynllunio cenedlaethol i adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf Gynllunio, fel rhan o Rifyn 8 Polisi Cynllunio Cymru (Ionawr 2016). Ochr yn ochr â'r polisi diwygiedig cafodd canllawiau cynllunio TAN 20 newydd eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos rhwng 4 Ionawr a 30 Mawrth 2016. Mae disgwyl i'r Llywodraeth asesu'r adborth i'r ymgynghoriad a chyhoeddi fersiwn derfynol o TAN 20 yn ystod 2016.

Gyda'i gilydd mae'r darpariaethau deddfwriaethol, y polisi a'r canllawiau cynllunio'n darparu fframwaith gadarn a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg, a'r defnydd ohoni, yn ffactor ac yn ystyriaeth gynllunio ym mhob rhan o Gymru.

Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg

Roedd cryfhau prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod o addysg a hyfforddiant yn rhan annatod o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ac ategwyd hyn yn Bwrw Mlaen. Wrth olrhain twf addysg cyfrwng Cymraeg, mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr wedi dangos agwedd ragweithiol at gynyddu cyfleoedd i ddysgwyr allu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag mae angen i rai eraill wella eu cynllunio strategol er mwyn hwyluso twf cyfrwng Cymraeg wrth ddatblygu polisi cydlynol a chyd-gysylltiedig. Ceir adroddiad ar dargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Atodiad 2.

Cyflwynodd awdurdodau lleol eu cynlluniau diwygiedig ym mis Rhagfyr 2015, ac fe'u cymeradwywyd neu gymeradwyo â gwelliannau gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Mawrth 2016.

Dyma rai o'r prif ddatblygiadau yn 2015-16:

Bro Morgannwg

Cwblhawyd y gwaith i ehangu Ysgol Gwaun y Nant, Y Barri ym mis Tachwedd 2015 ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Dewi Sant, Llanilltud Fawr, ym mis Medi 2015.

Caerdydd

Ysgol gynradd newydd i wasanaethu ardaloedd Trebiwt, Treganna, Grangetown a Glanyrafon i agor ar safle dros dro ym mis Medi 2016 ac ar safle barhaol ym mis Medi 2017.

Sir Gâr

Cynlluniau ar y gweill i symud hyd at 11 ysgol gynradd i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllun buddsoddi i ail drefnu ysgolion uwchradd wedi'i gyflawni. Ysgol Dyffryn Aman wedi datblygu i fod yn ysgol 2B. Ysgolion Pantycelyn a Thregib wedi uno i greu Ysgol Bro Dinefwr- newid o 2C i 2B o ran darpariaeth. Ysgolion y Gwendraeth a Maes yr Yrfa wedi uno i greu ysgol 2A- Ysgol Maes y Gwendraeth.

Powys

Agorwyd Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd yn mis Ionawr 2016. Bydd tua 300 o lefydd yn yr ysgol, a bydd yr ysgol yn darparu canolfan/lleoliad ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar.

Cyngor Sir Ddinbych

Yn dilyn cymeradwyaeth achos busnes i ehangu ac ailfodelu Ysgol Glan Clwyd, mae'r adeiladu yn datblygu'n dda. Bydd capasiti'r ysgol yn cynnig 200 o lefydd ychwanegol a bydd yn darparu cyfleusterau dysgu ac addysgu rhagorol. Mae hyn yn dilyn buddsoddiad Cyngor Sir Ddinbych mewn addysg ysgol gynradd yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Mae'r Colegau Addysg Bellach, darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau gyda'u ymdrechion i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae cynlluniau'r Colegau a'r darparwyr seiliedig ar waith bellach yn cynnwys targedau penodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth a cyflawnodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y cynllun staffio academiaidd, gyda mwy na 100 o ddarlithwyr wedi'u penodi dros gyfnod o bum mlynedd.

Yr hyn sy'n greiddiol i'r nod o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob sector yw'r angen i sicrhau gweithlu digonol gyda sgiliau Cymraeg. Mae'r Cynllun Sabothol yn parhau i ddatblygu, ac eleni ehangwyd y Cynllun i gynnwys cwrs penodol ar gyfer cynorthwyyr dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith o gael darlun clir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg hefyd yn mynd rhagddo, gyda'r nod o allu gwella'r dull o gynllunio gweithlu'r dyfodol.

3. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Bwriad Llywodraeth Cymru yw adeiladu ar weithgareddau presennol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Ymrwymir yn Bwrw Mlaen i gynnwys buddsoddiad ychwanegol o gyllid refeniw gwerth £1.2 miliwn dros ddwy flynedd. O ran y cyllid, rhoddir blaenoriaeth i'r ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac i ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol. Mae angen i ni gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg drwy'r system addysg a'r system hyfforddi er mwyn ategu'r gwaith hwn. Yr her yw troi'r dysgwyr hyn yn siaradwyr.

Pwysleisir yn Bwrw Mlaen bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg yn y gymuned ar gyfer dyfodol yr iaith a chymunedau, gan ganolbwyntio ar gefnogi cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg, a datblygu'r iaith lle mae canrannau is o siaradwyr ond lle gwelwyd cynnydd. Buddsoddwyd £1.2 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd at y diben hwn. Cwmpasir yn yr adran hon adroddiad ar feysydd strategol y teulu (1), plant a phobl ifanc (2) a'r gymuned (3) a nodir yn Strategaeth y Gymraeg *laith fyw: iaith byw*.

Rôl y Mentrau Iaith

Parhawyd i fuddsoddi'r £1.2 miliwn, a dyrannu gwerth £750,000 yn ychwanegol i'r Mentrau Iaith er mwyn cryfhau eu gwaelodlin ariannol. Golyga hyn fod pob Menter bellach yn derbyn isafswm o £60,000 y flwyddyn, sydd yn ei dro yn galluogi'r Mentrau i gynyddu eu gweithgarwch a'u dylanwad ar lefel gymunedol.

Yn ogystal, dyrannwyd arian ychwanegol i Mentrau Iaith Cymru er mwyn cefnogi gwaith y rhwydwaith o Fentrau Iaith ar lefel genedlaethol. Bu'r cyllid ychwanegol hefyd yn fodd i godi safonau ymysg y Mentrau Iaith ac i broffesiynoli'r maes cynllunio ieithyddol.

Ariannwyd 12 prosiect drwy gynllun grant Bwrw Mlaen er mwyn ysgogi cynlluniau newydd o fewn y maes cynllunio ieithyddol, ac fe ddatblygwyd cynllun grant newydd ar gyfer 2016-19 yn seiliedig ar bolisi ariannu ar sail canlyniadau. Anogwyd ceisiadau ar sail tystiolaeth o gydweithio a chydgyllunio effeithiol ar lefel gymunedol.

Astudiaeth achos – Clwb Rygbi Caernarfon

Yn dilyn cais llwyddiannus i gronfa Bwrw Mlaen, derbyniodd Clwb Rygbi Caernarfon gyllid er mwyn cynnal gwerylloedd rygbi yn ystod gwyliau'r haf 2015 gyda'r bwriad o ddefnyddio gweithgareddau rygbi i gynyddu defnydd a hyder plant a phobl ifanc ardal Caernarfon yn y Gymraeg.

Yn ystod 9 diwrnod o wersylloedd gyda dros 100 o blant a phobl ifanc, cynhaliwyd 36 o sesiynau hyfforddiant rygbi trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â sesiynau gyda Ken Owens a Scott Williams o dîm rygbi Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu hefyd sesiynau hyfforddiant sylwebu i'r bobl ifanc gyda Gareth Rhys Owen sydd yn sylwebu ar y Clwb Rygbi ar S4C a Radio Cymru, gyda'r bwriad o ymestyn a chryfhau sgiliau llafar y plant a'r bobl ifanc wrth drafod rygbi trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel Llywodraeth rydym yn awyddus i weld cydweithio mwy effeithiol rhwng y cyrff sy'n hybu a hwyluso'r Gymraeg. Yn ystod 2015-16, gwnaeth Mentrau Iaith Cymru gytuno ar femorandwm cydweithio gyda'r Urdd a'r Mudiad Meithrin, gyda chynlluniau i ddatblygu cytundebau gyda phartneriaid eraill hefyd i'w cadarnhau.

Datblygiad arall a welwyd yn 2015-16 oedd yr angen i bartneriaid ddangos tystiolaeth gadarn o gydweithio ar y lefel leol wrth ymgeisio am grant i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. O ran grantiau'r Mentrau Iaith, penderfynwyd derbyn un cais gan bob sir ac mae hyn wedi arwain at gryfhau'r elfen o gydgyllunio strategol ar y lefel sir. Dechreuwyd trafodaethau i adeiladu ar hyn, gan annog cydweithio strategol ar draws ffiniau awdurdodau lleol lle bo hynny'n addas a phriodol.

Teuluoedd

Cydnabu'r Llywodraeth bwysigrwydd y cartref a'r dylanwadau amrywiol ar rieni wrth fagu plant a dewis gofal ac addysg ar eu cyfer. Mae'n bwysig sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i hybu eu defnydd nhw, ynghyd â defnydd eu plant, o'r Gymraeg.

Yn ystod 2015-16 adolygwyd y ddarpariaeth a ariennir gan Is-adran y Gymraeg yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod yr holl wariant yn cefnogi'r nod o gynyddu nifer y plant sy'n symud ymlaen i addysg Gymraeg. Cytundebwyd â Mudiad Meithrin i ddarparu'r cynllun newydd 'Cymraeg i Blant'. Prif nod y cynllun yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg trwy gynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni a'u teuluoedd ar fanteision addysg Gymraeg a chyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant. Rheolir y cynllun ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin a Llywodraeth Cymru. Bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â'r gwaith hyrwyddo cenedlaethol trwy nifer o bartneriaid, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, tra bod y Mudiad yn cynnal gweithgareddau ar lefel leol. Plethir gwaith 'Cymraeg i Blant' gyda gwaith ehangach y Mudiad er mwyn sicrhau taith gofal/addysg o'r crud i'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cynllun hefyd yn cefnogi amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yr Awdurdodau Lleol drwy gyfrannu at y gwaith cynllunio ar lefel leol a strategol.

Plant a phobl ifanc

Un o'r heriau mwyaf o ran parhad y Gymraeg fel iaith hyfyw i'r dyfodol yw'r defnydd a wneir ohoni gan bobl ifanc. Amlyga ffigyrau'r Cyfrifiad ers 1991 bwysigrwydd plant a phobl ifanc i ddyfodol yr iaith. Y cynnydd yn nifer y siaradwyr o oedran ysgol rhwng 5 a 15 oed yw un o ddatblygiadau mwyaf calonogol y genhedlaeth ddiwethaf. Ond er mor gadarnhaol yw'r cynnydd yn y niferoedd sy'n gallu siarad yr iaith, nid yw hyn yn cyfateb i'r sawl sy'n ei ddefnyddio. Mae canlyniadau Arolwg Defnydd Iaith *Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013 – 15* yn nodi fod pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser, neu bron bob amser, yn yr ysgol nag ydynt o wneud hynny gyda'u ffrindiau neu gartref.

Yn 2015-16 sefydlwyd gweithgor o ran-ddeiliaid allanol i ystyried defnydd iaith anffurfiol ymhlith plant a phobl ifanc a datblygu fframwaith i fynd i'r afael â'r maes hwn. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar weithgarwch yn ymwneud â'r gyfundrefn addysgol, cyfleoedd cymdeithasol, ac ymgyrchoedd penodol i newid ymddygiad plant a phobl ifanc mewn perthynas â'r Gymraeg.

